

# Tyfu Canolbarth Cymru Mai 2025

**Croeso i rifyn mis Mai o Gylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru!**

Mae rhifyn y mis hwn yn llawn diweddariadau sy’n adlewyrchu’r egni a’r arloesedd sy’n gyrru ein rhanbarth yn ei flaen — o lansiad cronfa fuddsoddi mewn eiddo masnachol newydd sbon i ddatblygiadau technoleg-amaeth cyffrous sy’n gwneud gwahaniaeth eisoes ar ffermydd ledled Canolbarth a Gogledd Cymru.

Wrth inni barhau i gefnogi busnesau uchelgeisiol a chymunedau bywiog, cadwch lygad am ragor o gyfleoedd cyllido gan Innovate UK drwy’r Meithrin Arloesi yn y Clwstwr Technoleg Amaeth a Bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru – sy'n dod yn fuan!

Diolch am ddarllen ac am helpu i dyfu cyfleoedd yng Nghanolbarth Cymru.

**Tîm Tyfu Canolbarth Cymru**

[Clawr: Tirlun.ai, gweler yr erthygl nodwedd]

# Mae cronfa eiddo masnachol newydd sbon wedi'i lansio i hybu twf busnesau yng Nghanolbarth Cymru

Lansiwyd Cronfa Buddsoddi mewn Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru'n swyddogol mewn digwyddiad a gynhaliwyd ar 01 Mai 2025 yn CMD Ltd (rhan o Grŵp Makefast), Parc Busnes Aber-miwl.

Mae'r gronfa wedi'i thargedu at sectorau busnes penodol. Rhaid i ymgeiswyr cymwys fod yn fusnesau preifat sydd wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol fel Cwmni (Cwmni Cyfyngedig neu Cyfyngedig drwy Warant) neu Bartneriaeth (gyda Chytundeb Partneriaeth), ac yn gweithredu mewn sectorau penodol gan gynnwys Adeiladu, Trydan a Phlymio, Gwybodaeth a Chyfathrebu, Gweithgynhyrchu, Gwasanaethau Proffesiynol, Eiddo Tiriog, a Masnach Cyfanwerthu, Manwerthu a Modurol. Nid yw'r gronfa ar agor i ddatblygwyr eiddo ar hap, cyrff cyhoeddus, na chymdeithasau elusennol.

Mae rhagor o wybodaeth am y gronfa ar gael yma: [https://bit.ly/CBEMCanolbarthCymru](https://bit.ly/CBEMCanolbarthCymru)



*1 - CMD Ltd (rhan o Grŵp Makefast), Parc Busnes Aber-miwl.*

# Clwstwr Technoleg Amaeth a Bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru

## Tirlun.ai – Yn Helpu Ffermwyr i Weithio'n Gallach, Bob Dydd



**Mae ap newydd a ddatblygwyd ar fferm yng Ngogledd Cymru bellach ar gael ledled y byd i helpu ffermwyr i fynd i'r afael â heriau beunyddiol a chynyddu cynhyrchiant.**

Mae Tirlun.ai yn offeryn syml ond pwerus wedi'i ddylunio gan ffermwyr, ar gyfer ffermwyr. Fe'i cyd-sefydlwyd yn 2024 gan Sam Pearson, a chrewyd yr ap i helpu ffermwyr fel ef i reoli tasgau, hyfforddi staff, a chadw pethau i redeg yn esmwyth – i gyd mewn un lle.

Mae'n un o naw prosiect arloesol o'r rhanbarth Canolbarth a Gogledd Cymru a sicrhaodd gyfran o £400,000 trwy alwad New Innovators Innovate UK – sy'n rhan o'r Launchpad Canolbarth a Gogledd Cymru ym maes technoleg amaeth a thechnoleg bwyd.

Gyda'r gefnogaeth hon, bu Sam a'r datblygwr Johnson Bada yn adeiladu fersiwn gyntaf yr ap, sydd bellach yn cael ei ddefnyddio bob dydd ar fferm Sam ei hun.

"*Rydym yn falch iawn o sut mae'n mynd. Rydym yn ychwanegu mwy o gynnwys a chyrsiau i'w defnyddio o fewn ein busnes ffermio bob dydd, ac mae'r adborth gan ein tîm a defnyddwyr cynnar eraill wedi bod yn wych*," meddai Sam.

Mae Sam, sy'n ffermio yng Nghonwy, Gogledd Cymru, wedi tynnu ar sgyrsiau uniongyrchol gyda ffermwyr ar draws y DU, Iwerddon, y Swistir, yr Ariannin, Chile, Uruguay a Nigeria i ddeall y problemau cyffredin. Y canlyniad yw ap, mewn fformat symudol ac ar We, sy'n profi ei werth yn barod.

"*Daeth Tirlun.ai o brofiad bywyd go iawn," meddai Sam. "Roeddem am gael rhywbeth a fyddai'n gwneud dirprwyo tasgau'n haws, lleihau dibyniaeth ar unigolion allweddol ac yn ei*

*gwneud yn haws hyfforddi ein tîm – yn enwedig pan fydd pethau’n brysur neu pan fydd pobl yn newydd*.”





Mae’r ap yn gweithio o unrhyw borwr gwe neu fel lawrlwythiad Android. Mae’n caniatáu i ffermwyr:

- Gynhyrchu gweithdrefnau gweithredu cam-wrth-gam wedi’u strwythuro o fideos sydd wedi’u huwchlwytho
- Adeiladu adnodd penodol i’r fferm i hyfforddi’r tîm presennol, recriwtiaid newydd neu olyniaeth y dyfodol yn gymharol rwydd
- Gwneud defnydd gwell o wasanaethau ymgynghorol (milfeddyg, agronomegydd, maethegydd ac ati)

- Cadw gwybodaeth benodol i’r fferm o fewn y busnes yn y tymor hir
- Adeiladu sylfeini cadarn i baratoi ar gyfer cyfleoedd twf

Mae Tirlun.ai eisoes yn denu sylw gan sefydliadau ffermio rhanbarthol a chenedlaethol, ac mae Sam yn gobeithio adeiladu ar y momentwm hwn i ddatblygu nodweddion newydd yn seiliedig ar adborth defnyddwyr cynnar.

*“Hoffem barhau i weithio gydag Innovate UK a’r clwstwr Technoleg Amaeth i lunio’r ap ymhellach – mae popeth a adeiladwn yn seiliedig ar yr hyn y mae ffermydd go iawn yn dweud wrthym eu bod ei angen.”*

Gyda dulliau ymarferol fel Tirlun.ai yn dod i’r amlwg o’r rhanbarth, mae Canolbarth a Gogledd Cymru yn sefydlu eu hunain yn gadarn fel lle gall syniadau ffermio deallus ffynnu.





P’un a ydych yn rheoli llaethdy prysur, yn rhedeg fferm gymysg, neu newydd gychwyn – gallai Tirlun.ai helpu chi a’ch tîm i weithio’n fwy effeithlon.

*“Roedd yn syndod i mi faint o ddiddordeb oedd gan fy mhlant tri (8, 10 a 12 oed) yn yr agweddau technegol ar redeg ein fferm pan gyflwynwyd y wybodaeth iddyn nhw drwy fideo gyda esboniad,” ychwanegodd Sam. “Maen nhw bellach yn cystadlu rhyngddyn nhw i ddysgu sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr – hir oes iddo hynny!”*

Rhowch gynnig ar yr ap eich hun – mae'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio am gyfnod cyfyngedig trwy www.tirlun.ai neu chwiliwch am Tirlun.ai yn siop apiau Android.

Mae Tirlun.ai yn aelod o'r Clwstwr Technoleg Amaeth ar gyfer y Canolbarth a'r Gogledd. Mae'r Clwstwr Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd wedi'i gynllunio i ddod â syniadau newydd i'r fei all wella'r ffordd rydym yn cynhyrchu bwyd, yn rheoli tir ac yn defnyddio technoleg mewn ffermio. Mae Tirlun.ai yn rhan o gymuned gynyddol o arloeswyr yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru sy'n troi syniadau a ddatblygir yn y cartref yn offer i'r byd go iawn.

*"Gwnaeth y gefnogaeth a gawsom trwy'r Clwstwr wahaniaeth gwirioneddol," meddai Sam. "Fe'n helpodd i adeiladu a lansio rhywbeth yr ydym bellach yn ei ddefnyddio ein hunain – ac sydd eisoes yn dechrau bod o fudd i eraill hefyd."*


Dros y ddwy flynedd nesaf, trwy'r prosiect Nurturing Innovation yng Nghlwster Technoleg Amaeth  a Thechnoleg Bwyd Canolbarth a Gogledd Cymru, bydd Sefydliad Rheoli Clwstwr y Launchpad yn cydlynu gweithgareddau ac yn hyrwyddo mwy o gyfleoedd ariannu gan Innovate UK i sicrhau ceisiadau llwyddiannus gan fusnesau.

Dros y ddwy flynedd nesaf, trwy'r prosiect Meithrin Arloesi yn y Clwstwr Technoleg Amaeth a Bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru, bydd Sefydliad Rheoli Clwstwr y Launchpad yn cydlynu gweithgareddau ac yn hyrwyddo mwy o gyfleoedd ariannu gan Innovate UK i sicrhau ceisiadau llwyddiannus gan fusnesau.

*"Rydym yn falch o fod yn rhan o'r clwstwr hwn," meddai Sam. "Mae gwir fomentwm o ran technoleg amaeth  yng Nghanolbarth Cymru – ac hoffem barhau i weithio gydag Innovate UK i fynd â'n ap i'r cam nesaf a darparu gwerth i ffermwyr a defnyddwyr."*

Mae Tirlun.ai yn enghraifft wych o sut mae arloesedd digidol yn tyfu'r rhanbarth, gan gefnogi cymunedau ffermio gyda dulliau ymarferol sy'n arbed amser ac yn lleihau straen.


Mae croeso i fusnesau sydd â diddordeb ymuno â'r Clwstwr Technoleg Amaeth neu Dechnoleg Bwyd a chael gwybod am gyfleoedd ariannu yn y dyfodol ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru: www.tyfucanolbarth.cymru/TechAmaethTechBwyd




## Dathlu'r canlyniadau o Gronfa Ffyniant Gyffredin

Y mis diwethaf fe wnaethom roi'r sylw i etifeddiaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ein rhanbarth a rhannu nifer o astudiaethau achos. Ewch i sianel YouTube Cyngor Sir Powys i weld clips gwych ar gynifer o brosiectau, sefydliadau a chymunedau sydd wedi elwa o'r gronfa — o uwchraddio systemau gwresogi a goleuo mwy cynaliadwy ar gyfer mannau cymunedol i ehangu sgiliau rhifedd i oedolion mewn gwaith :

[https://youtube.com/playlist?list=PLebbFOMA3ZSpOnNcASf2U3jiS0s9jckU4&si=_4nWZD5jOD6UGutt](https://youtube.com/playlist?list=PLebbFOMA3ZSpOnNcASf2U3jiS0s9jckU4&si=_4nWZD5jOD6UGutt)




## Darlleniad argymelledig...

Yn gynharach yn y rhifyn hwn, rydym yn rhannu astudiaeth achos ar Tirlun.ai, un o brosiectau’r Arloeswyr Newydd. Mae LanoTech hefyd yn un o naw prosiect blaengar o ranbarth Canolbarth a Gogledd Cymru a sicrhaodd gyfran o £400,000 o gyllid drwy gystadleuaeth cyllido Arloeswyr Newydd Innovate UK ym meysydd technoleg-amaeth a thechnoleg bwyd.


Mae’r erthygl gan Global Welsh isod yn werth ei darllen wrth iddynt roi Sylw Busnes ar LanoTech.

Wedi’i leoli ym Mhowys ac Aberystwyth, mae [LanoTech](#) yn arloesi gyda’r defnydd o lanolin Prydain fel dewis cynaliadwy yn lle soia ac olew llysiau mewn bwyd anifeiliaid. Drwy gydweithio â ffermwyr Cymreig, sefydliadau ymchwil, a gweithgynhyrchwyr bwyd, mae LanoTech ar genhadaeth i gynyddu gwerth gwlân wrth leihau’r dibyniaeth ar olewau porthiant a fewnforir.

Darllenwch yr erthygl lawn gan Global Welsh: [https://globalwelsh.com/article/163/business-spotlight-lanotech](https://globalwelsh.com/article/163/business-spotlight-lanotech)



## Ffarwel Twymgalon i Ann




Hoffem ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at ein ymgynghoriad cyhoeddus **ar Gynllun Trafnidiaeth Ranbarthol drafft ar gyfer Canolbarth Cymru**. Mae eich safbwyntiau'n werthfawr ac yn cael eu hadolygu'n ofalus i helpu llunio'r camau nesaf.

📎 Mae modd dal i gael mynediad at ddogfennau allweddol a darganfod beth sydd nesaf yma: [https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/18687/Ymgynghoriad-ar-Gynllun-Drafft-Trafnidiaeth-Rhanbarthol-Canolbarth-Cymru](https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/18687/Ymgynghoriad-ar-Gynllun-Drafft-Trafnidiaeth-Rhanbarthol-Canolbarth-Cymru)

Wrth inni edrych tua'r dyfodol, rydym hefyd yn cymryd eiliad i fyfyrio – ac i ddweud ffarwel cynnes i'n cydweithwraig Ann Elias, sy'n ymddeol y mis hwn ar ôl 41 mlynedd anhygoel mewn llywodraeth leol, gan gynnwys 37 mlynedd gyda Cheredigion.

Mae Ann wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu blaenoriaethau trafnidiaeth ar draws Canolbarth Cymru, gan ddod â mewnwelediad, caredigrwydd a phenderfyniad i'w gwaith

bob amser. Bydd ei chyfraniad yn golled fawr i dîm Tyfu Canolbarth Cymru ac i bartneriaid ledled y rhanbarth.

Dymunwn ymddeoliad hapus, iach a haeddiannol i Ann – ac rydym yn diolch i bawb sy’n parhau i gefnogi cynllunio trafnidiaeth yn ein rhanbarth. 🚦💐




## Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda’r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd?  Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy’n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy’n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales